

# Cynllun Tref Rhuddlan a Chynllun Ardal Rhuddlan

“Edrych Ymlaen gyda'n Gilydd”

2013-2020

Diwygiwyd 11/03/14

## Cynnwys

Cyflwyniad

Tudalen 1

Cynllun Tref Rhuddlan

Tudalen 2

Cysylltiadau rhwng y Dref a'r Ardal

Tudalen 14

Y Cynllun Ardal

Tudalen 15

Blaenoriaethau'r Cynllun Ardal

Tudalen 19

Atodiad Ystadegol

Tudalen 20

DRAFT

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi mabwysiadu nod strategol o fod yn “gyngor sy’n perfformio’n dda yn nes at y gymuned”.

Er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r nod hwn, gwahoddodd y Cyngor Sir yr holl gynghorau tref a chymuned a'r busnesau, sectorau cymunedol a gwirfoddol ym mhob un o'i brif drefi a chymunedau llai sy'n gysylltiedig ag ef i uno i ddatblygu “cynlluniau tref”. Mae'r rhain yn ddogfennau byw a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac fe fyddant yn nodi

- **y sefyllfa bresennol yn y trefi**
- **heriau allweddol a chyfleoedd y byddant yn eu hwynebu dros y degawd nesaf**
- **gweledigaeth ar gyfer pob tref i'w darparu â dyfodol cynaliadwy, a**
- **chamau gweithredu realistig a chyraeddadwy a fydd yn gwireddu'r weledigaeth honno.**





# CYNLLUN TREF RHUDDLAN

“Edrych Ymlaen gyda'n Gilydd”

2012 – 2020

DRAFFT Mawrth 2014

## Rhuddlan

Mae Rhuddlan â hanes hir ac enwog sy'n ymestyn yn ôl i tua 7,000 CC.

Gyda safle allweddol Rhuddlan ger croesfan hynafol dros afon Clwyd fe ddaeth yn fflachbwynt yn y gydberthynas Eingl-Gymreig; pwy bynnag oedd yn dal y rhyd yma oedd yn rheoli'r llwybr ymosod rhwyddaf i berfeddwlad Gogledd Cymru ac oddi yno, a chors Rhuddlan yn 795 oedd lleoliad gorchfygiad y Cymry gan y Sacsoniaid. Yn ystod y 10g, fe sefydlodd yr Eingl-Sacsoniaid sawl tref neu "burhs" yng Ngogledd Cymru'n cynnwys Cledemutha yn lle mae Rhuddlan yn awr ac a sefydlwyd yn 921 AD gan Edward yr Hynaf ond eithaf byr fu ei bodolaeth fel anheddiad.

Rhwng 1077 a 1277, roedd rheolaeth yn newid yn aml rhwng y Cymry a'r Saeson gyda threfgordd hynafol Edward 1 yn cychwyn oddeutu 1278. Pan adeiladodd Edward 1 ei gastell newydd y sefydlwyd tref newydd i'r gogledd o'i gaer. Mae patrwm grid gwreiddiol ei strydoedd - mae'r Stryd Fawr bresennol, wedi ei chroesi â Stryd y Castell, Stryd yr Eglwys, Stryd y Senedd, Stryd Gwindy a'r Stryd Groes, yn dal yn galon y Rhuddlan fodern ac mae rhan o'i hamddiffynfeydd o ffosydd yn dal yn weladwy rhwng Lôn y Ficerdy a Rhodfa Kerfoot.

Roedd y castell â rôl hefyd yn hanes Cymru: yma y sefydlwyd system o lywodraeth Seisnig dros ran helaeth o Gymru gan Statud Rhuddlan yn 1284 - setliad a barodd tan y Ddeddf Uno yn 1536.

Fe adeiladwyd y bont gerrig dros afon Clwyd yn 1358 i ddechrau ac yna cafodd ei gwella yn 1595. Roedd y cei i'r gogledd o'r bont yn cael ei ddefnyddio gan longau arfordirol nes yr agorwyd rheilffordd Caer i Gaergybi yn 1848 lle'r adeiladwyd pont reilffordd ar draws aber afon Clwyd a hynny'n atal llongau talach rhag mordwyo'r afon ymhellach i fyny i Ruddlan.

Ar ddiwedd y 19g fe sefydlwyd fforddri ar ochr orllewinol yr afon ac roedd yn cyflogi oddeutu 100 o bobl yn gwneud peiriannau amaethyddol.

Yn fwy diweddar, ac yn dilyn agor ffordd osgoi Rhuddlan ar ddiwedd y 1990au, cafwyd gwelliannau amgylcheddol mawr yn y Stryd Fawr a datblygiad Parc Manwerthu Castle View ar dir i'r gorllewin o'r afon sef lleoliad y Premier Inn a bwyty Table Table ynghyd â bwyty gyrru-drwodd Kentucky Fried Chicken.

Mae cyfleusterau cyhoeddus yn y dref yn cynnwys ysgol gynradd, llyfrgell gyda darpariaeth ieuencid rhan-amser, canolfan gymunedol, meddygfa, caeau chwarae a lawnt fowlio, nifer o fannau addoli yn cynnwys Eglwys y Santes Fair a adeiladwyd yn 1301, a Gwarchodfa Natur Leol.

**Poblogaeth Rhuddlan yw 3,709.**



Map yn dangos y wardiau yn Ardal Rhuddlan

## Lle'r ydyn ni rŵan

(Mae'r union ffigurau yn yr Atodiad Ystadegol)

### Pobl

O'i chymharu â'r sir gyfan mae tref Rhuddlan â

- chanran debyg o bobl sydd dros 65 oed,
- canran debyg o bobl dros 85 oed,
- llai o bobl dan 15,
- llai o bobl sy'n hawlio budd-dal tai neu Dreth Cyngor
- cyfran is o aelwydydd sy'n orlawn

### Cymuned

O'i gymharu â'r sir gyfan, mae mwy o bobl yn nhref Rhuddlan

- wedi eu geni yng Nghymru,
- ond mae llai o bobl yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'r raddfa troseddu yn ward Rhuddlan yn is na'r raddfa gyfartalog ar gyfer y sir gyfan o ran achosion o drais yn erbyn y person, difrod troseddol a dwyn a thrin.

Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio fformiwla i fesur amddifadedd. Mae Cymru wedi ei rhannu'n 1896 o ardaloedd a rhai ohonyn nhw'n llai na wardiau'r Cyngor Sir. Yna fe gaiff pob ardal ei graddio gan roi sgôr o 1 i'r mwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig â sgôr o 1896. Nid yw'r sgorau mewn blynyddoedd gwahanol yn uniongyrchol gymharol gan fod y ffordd y cyfrifir y mynegai'n newid dros amser.

Yn rhifyn 2011 y Mynegai, rhoddwyd dosbarthiad is na'r flwyddyn flaenorol i bob ardal ac eithrio Rhuddlan 2. Gydag incwm isel y gwelwyd y symudiad mwyaf i fyny yn y "parthau" sy'n ffurfio'r Mynegai ar gyfer yr ardal arbennig yma ac yna ddiweithdra ac iechyd.



Map yn dangos Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is yn Rhuddlan

## Lle'r ydyn ni rŵan

### Swyddi

O'i gymharu â'r sir gyfan,

- mae mwy o bobl sy'n byw yn Rhuddlan yn gweithio yn y sector gyhoeddus (ac mae mwy o bobl yn Sir Ddinbych yn gweithio yn y sector yma nag mewn unrhyw ardal awdurdod lleol arall ym Mhrydain),
- mae mwy o bobl sy'n byw yn Rhuddlan yn gweithio mewn manwerthu
- mae canran is o bobl yn gweithio mewn cynhyrchu
- mae llai o bobl yn cymudo dros 20km i weithio
- mae canran is o bobl o oed gwaith yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.

Mae incwm blynyddol aelwydydd yn Rhuddlan fymryn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Sir Ddinbych ond mae yna ganran uwch o aelwydydd sydd o dan ganolrif y Deyrnas Unedig o 60% nag yn y sir fel cyfanwaith.

### Y Lle

- Mae Rhuddlan, gan fwyaf, yn dref breswyl sy'n darparu gwasanaethau i'r boblogaeth leol.
- Mae ar lwybrau prysur sy'n cysylltu trefi mwy'r Rhyl a Phrestatyn ag ysbyty cyffredinol y rhanbarth sydd hefyd yn un o gyflogwyr mwyaf yr ardal, canolfannau cyflogaeth lleol eraill fel Parc Busnes Llanelwy, a hefyd gyrchfannau sydd ymhellach i ffwrdd ar hyd yr A55.
- Y prif atyniad i ymwelwyr yn y dref yw'r castell o'r 13g a gafodd 26,300 o ymwelwyr yn 2010.
- Mae nifer y gwelyau mewn llety graddedig i ymwelwyr yn y dref wedi cynyddu i 87 gydag agor y Premier Inn.

### Cyfraddau'r safleoedd manwerthu gwag - Hydref 2011

Mae cyfradd y safleoedd gwag yng nghanol y dref yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer y DU.

Rhuddlan	7.8%	(4 uned)
Y DU	16.3%	(Colliers International)



## Sialensiau a chyfleoedd y dyfodol

### Pobl

Mae yna alw mawr am dai gofal ychwanegol ar gyfer pobl hŷn oherwydd cau tri o gartrefi preswyl ac fe ddisgwylir i hyn gynyddu wrth i gyfran y rhai sydd dros 85 oed yn y boblogaeth gynyddu.

Roedd ailddatblygiad arfaethedig safle'r "Triongl" yn cynnwys nifer fechan o dai newydd.

Mae'r cyngor yn ystyried gwahanol opsiynau tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol yn yr ardal.

### Cymuned

Mae canolfan y plant a weithredir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn Lôn y Ficerdy i'w adleoli'n fuan i Ddinbych.

Nid oes yn y dref.

Nid oes toiledau a chyfleusterau newid yng nghaeau chwarae'r Admiral.

Nid oes darpariaeth bwrpasol i ieuencid yn Rhuddlan

Mae cyn adeilad Clwb y Ffermwyr Ifanc yn wag ar hyn o bryd.

Mae'r cyngor yn bwriadu archwilio ei gyfleusterau/adnoddau cymunedol a manau adeiladu i gael eu datblygu o bosibl fel canolfannau cymunedol.

### Swyddi

Cafwyd buddsoddi sylweddol yn Nhriongl Rhuddlan ond mae yna ran sylweddol o'r ardal sy'n dal yn wag.

Y Premier Inn yn Rhuddlan yw'r un sy'n perfformio orau yn y DU o ran ei faint.

Nid yw'r hen ladd-dy yn Stryd y Gwindy'n cael ei ddefnyddio o gwbl ar hyn o bryd.

Mae'r masnachwr adeiladu Huws Gray â nifer fawr o gwsmeriaid.

Mae stad ddiwydiannol HTM yn safle llwyddiannus.

### Y lle

Ychydig iawn o eiddo gwag neu flêr sydd yn y dref ond mae cyn dafarn y Marsh Warden yn safle adfeiliedig a blêr yn un o'r prif fynedfeydd i'r dref.

Mae Cadw wedi buddsoddi'n ddiweddar yng Nghastell Rhuddlan ond mae parcio'n gyfyngedig a'r arwyddion o'r dref a meysydd parcio eraill ac i'r Twtil yn wael.

Mae adeilad hanesyddol y Senedd (sy'n adeilad preswyl ar hyn o bryd) yn wag ac ar werth.

Nid yw'r hen lwybr ar hyd lan orllewinol yr afon ddim ar agor.

Wedi buddsoddi'n drwm mewn gwella ansawdd stoc tai sy'n eiddo i'r cyngor o fewn yr ardal, mae'r cyngor yn bwriadu buddsoddi adnoddau pellach i wella golwg allanol ac ardaloedd amgylcheddol cyfagos ar stadau sy'n eiddo i'r cyngor. I gefnogi hyn, bydd y cyngor hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu cynllun grant cymunedol ar gyfer grwpiau i wella amgylchedd manau agored sy'n eiddo i'r cyngor.

## Gweledigaeth ar gyfer Rhuddlan

Rydyn ni am i'r Rhuddlan

- barhau i fod yn lle dymunol iawn i fyw i breswylwyr lleol o bob oed,
- fod yn le lle mae'r cysylltiadau cymunedol cadarn yn cael eu cefnogi,
- fod yn le lle mae'r manteision i fusnesau a swyddi oherwydd ei leoliad ar lwybrau prysur i'r Rhyl a Phrestatyn ac oddi yno'n cael eu huchafu,
- fod yn le lle mae llwyddiant y castell fel cyrchfan i ymwelwyr yn elwa'r gymuned ehangach.



## Gwneud iddo ddigwydd...

...ar gyfer pobl

Yr hyn rydyn ni am ei gyflawni	Fe wnawn ni gyflawni hyn drwy	Fe gaiff ei arwain gan	Erbyn
Ystod o opsiynau tai ar gyfer pobl leol o bob oed, er mwyn eu galluogi i ddiwallu eu hanghenion o ran tai yn well	Gwerthuso darpariaeth tai presennol ar gyfer pobl hŷn a cheisio datblygu atebion tai priodol gan gynnwys ystyried llety gofal ychwanegol	Tai a Datblygu Cymunedol y Cyngor Sir	1-5 mlynedd
	Yn seiliedig ar angen tai lleol ceisio sicrhau darpariaeth tai fforddiadwy priodol mewn datblygiadau preswyl a thrwy nodi cyfleoedd tir newydd	Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor Sir	1-5 mlynedd

## Gwneud iddo ddigwydd...

...ar gyfer y gymuned

Yr hyn rydyn ni am ei gyflawni	Fe wnawn ni gyflawni hyn drwy	Fe gaiff ei arwain gan	Erbyn
Bydd cyfleusterau cymunedol y dref yn well	Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu adeilad cymunedol integredig; creu canolbwynt 'un stop' ar gyfer dysgu a gwybodaeth; i gynnwys darpariaeth ar gyfer dysgu oedolion a phobl ifanc, cyfleusterau TGCh yn addas ar gyfer y diben, iechyd a gofal cymdeithasol, gwybodaeth i dwristiaid; llyfrgell a hanes lleol.	Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden	2-5 mlynedd
	Ymchwilio i'r posibilrwydd o gael toiledau yng Nghae Chwarae Admiral	Y Cyngor Tref	1-2 flynedd
Bydd digwyddiadau i bawb yn y gymuned	Gwledd Rhuddlan	Aelodau Rhuddlan	1 flwyddyn
Bydd preswylwyr hŷn a phobl sydd â bygis, sgwteri a chadeiriau olwyn yn gallu symud yn haws o gwmpas y dref	Darparu cyrbau isel yn Lôn y Ficerdy	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	1-5 mlynedd

## Gwneud iddo ddigwydd...

...ar gyfer swyddi

Yr hyn rydyn ni am ei gyflawni	Fe wnawn ni gyflawni hyn drwy	Fe gaiff ei arwain gan	Erbyn
Darpariaeth cyfleoedd cyflogaeth newydd yn y dref	Cynorthwyo'r perchnogion i gwblhau aiddatblygiad y "Triongl"	Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor Sir	0-5 mlynedd

DRAFT

## Gwneud iddo ddigwydd...

...ar gyfer y lle


Yr hyn rydyn ni am ei gyflawni	Fe wnawn ni gyflawni hyn drwy	Fe gaiff ei arwain gan	Erbyn
Bydd y dref yn edrych yn fwy atyniadol fyth	Gwella edrychiad y "Triongi" gan ddefnyddio camau gorfodi os bydd angen	Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor Sir	0-1 mlynedd
	Gwella ymddangosiad unrhyw siopau blêr yn y Stryd Fawr a monitro tipio anghyfreithlon ger Eglwys y Santes Fair, Abbey Road a Dyserth Road gan ddefnyddio camau gorfodi os bydd angen	Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor Sir	parhaus
	Gofalu bod y rheiliau ger y Kings Head wedi eu paentio a bod unrhyw dolciau'n cael eu hunioni'n sydyn	Priffyrdd y Cyngor Sir	1-5 mlynedd
	Gwelliannau i arosfannau bysiau yn y dref	Y Cyngor Tref	1-2 flynedd
Bydd ymwelwyr â'r dref yn cael gwell profiad	Gosod bwrdd llwybr y dref ger lleoliad Morfa Rhuddlan/Premier Inn	Tai a Datblygu Cymunedol y Cyngor Sir	1 flwyddyn
	Gwella'r cysylltiadau rhwng y dref a'r castell drwy osod arwyddion i gerddwyr yn arwain o faes parcio Parliament Street i'r castell ac i Twt Hill	Tai a Datblygu Cymunedol/Tîm Prosiectau Mawr y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Gwelliannau i lwybr troed o Hylas Lane i Twt Hill gan gynnwys arwydd newydd. Ac agor yr hen lwybr troed yn Ffordd yr Orsaf.	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	1 – 5 mlynedd
	Gosod panel dehongli ger cerflun pren y marchogion yn Tan yr Eglwys Road, edrych i mewn i'r posibilrwydd o'i oleuo yn y nos, a gwneud yr arwyddion enwau strydoedd ar gyfer Tan yr Eglwys a Rhyl Road yn ddwyieithog o ystyried ei leoliad amlwg. Ymchwilio i'r posibilrwydd o sicrhau cyllid i atgyweirio'r cerflun.	Tai a Datblygu Cymunedol y Cyngor Sir	1-2 flynedd
	Edrych i wella ymddangosiad a dehongliad o'r amddiffynfeydd ffos hanesyddol ger Gwindy Street	Tai a Datblygu Cymunedol	1-2 flynedd
	Darparu palmant i gerddwyr ar hyd Marsh Road	Priffyrdd y Cyngor Sir	1-2 flynedd
	Ymchwilio i'r posibilrwydd o osod biniau ger y Marsh Warden ac yn agos i Faes Chwarae Admiral.	Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor Sir	1-2 flynedd
	Gosod meinciau pren ar hyd y llwybr beicio o'r Rhyl i Ruddlan (yn debyg i'r rhai ar yr ochr arall i'r ffordd)	Gwasanaethau Cefn Gwlad	1-2 flynedd

## Prosiectau sydd wedi'u cwblhau ...

Yr hyn yr oeddem am ei gyflawni	Rydym wedi cyflawni hyn trwy:	Diweddariad
Bydd y dref yn edrych yn fwy atyniadol fyth	Trwsio'r arwyddion enwau strydoedd sydd wedi pylu yn y Stryd Fawr a Ffordd Rhyl	Wedi'i gwblhau, mae arwyddion stryd wedi eu disodli.
Gwell profiad i ymwelwyr	Gweithredu Gorchymyn Man Cyhoeddus Dynodedig o fewn y rhan o'r dref a gwmpesir gan y terfyn cyflymder 30 mya	Mae'r gorchymynion bellach ar waith.
	Ymgynghori ar gyflwyno Gorchymyn Rheoli Cŵn o fewn y rhan o'r dref a gwmpesir gan y terfyn cyflymder 30 mya	
	Gosod bwrdd llwybr y dref ym maes parcio Stryd y Senedd	Mae Bwrdd Llwybr y Dref wedi ei osod
	Amnewid arwyddion llwybr troed sydd wedi pylu yn Stryd Gwindy ac yn Kerfoot Avenue	Mae'r arwyddion llwybr troed wedi eu disodli.
Bydd preswylwyr hŷn a phobl sydd â bygis, sgwteri a chadeiriau olwyn yn gallu symud yn haws o gwmpas y dref	Cyrbau isel rhwng y meysydd parcio yn Stryd y Senedd a thu ôl i'r King's Head	Mae'r cyrbau wedi eu gollwng.
	Darparu cyrbau isel yn Burgedin Terrace yn Stryd y Senedd.	
Darpariaeth mynwentydd digonol	Edrych i'r galw tebygol am leiniau yn y dyfodol a sut y gellid cwrdd â'r galw	Mae'r adran mynwentydd wedi cwblhau astudiaeth a gwelwyd bod 15-20 mlynedd o le claddu yn Rhuddlan. Mae'n ofynnol i'r cyngor gladdu pobl o fewn y sir yn unig ac nid oes galw ar unwaith am le yn y sir.
Bydd hyfywedd y siopau yn y Stryd Fawr yn cael ei wella	Ei gwneud yn haws i gwsmeriaid gyrraedd y siopau drwy gynnal adolygiad o'r anghysondebau yn y cyfyngiadau ar amseroedd parcio yn y Stryd Fawr	Mae adolygiad wedi'i gynnal a gwelwyd nad oes unrhyw anghysondebau a bod y cyfyngiadau yn ddigonol.
	Ymgysylltu â Chymdeithas Twristiaeth Llanelwy a Rhuddlan sydd newydd ei ffurfio	Mae swyddog wedi mynychu cyfarfodydd.

## Y Cysylltiadau rhwng y Dref a'r Ardal

Mae cymunedau Diserth a Chwm yn cael eu cysylltu'n agos â Rhuddlan gan fod trigolion yn defnyddio llawer o'r gwasanaethau sydd gan y dref i'w cynnig. Mae gwasanaeth bws rheolaidd o Ddiserth i Rhuddlan, ond mae gan Cwm wasanaeth cyfyngedig. Mae Diserth yn cael ei ffinio gan Cwm i'r de ddwyrain a Rhuddlan i'r gorllewin.







CYNLLUN  
ARDAL  
RHUDDLAN  
“EDRYCH YMLAEN GYDA’N GILYDD”  
2013 – 2020

14/11/13

## Gwneud iddo ddigwydd...

Ar gyfer Pobl a'r Gymuned

Gweithgaredd	Cyf. Strat. Uch. Econ.	Canlyniad	Bydd hyn yn cael ei arwain gan...	Dechrau	Gorffen
Archwilio'r potensial ar gyfer sicrhau bod arian ar gael ar gyfer offer chwarae, yswiriant a'r posibilrwydd o rentu tir i gefnogi cyfleusterau chwarae ym mhentref Cwm.	5.2c.	Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Cyngor Cymuned	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2016
		Nodi a sicrhau arian			
		Achos Busnes			
		Offer chwarae wedi'u prynu a thir ar rent (yn amodol ar achos busnes)			
Disodli'r offer chwarae yn Niserth.	5.2c.	Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Cyngor Cymuned	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Nodi a sicrhau arian			
		Achos Busnes			
		Offer chwarae newydd wedi'u hariannu (yn amodol ar achos busnes)			
Edrych ar y posibilrwydd o amnewid y giât ar lwybr Diserth/Prestatyn â giât sy'n gyfeillgar i gadeiriau olwyn.		Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Nodi a sicrhau arian			
		Achos Busnes			
		Giât wedi'i disodli â giât addas ar gyfer hygyrchedd (yn amodol ar achos busnes)			
Archwilio'r potensial ar gyfer datblygu Prosiect Milltiroedd Cymunedol rhwng Rhuddlan, Diserth a phentref Cwm.		Cyfarfod â'r cynghorau cymuned	Gwasanaethau Cefn Gwlad	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2018
		Nodi a sicrhau arian			
		Achos Busnes			
		Prosiect Milltiroedd Cymunedol wedi'i gwblhau (yn amodol ar achos busnes)			

**Gwneud iddo ddigwydd...**  
ar gyfer y lle

Gweithgareddau	Cyf. Strat. Uch. Econ.	Canlyniad	Bydd hyn yn cael ei arwain gan...	Dechrau	Gorffen
Edrych ar y posibilrwydd o dacluso eiddo ar hyd Ffordd Talargoch gan ddefnyddio camau gorfodi lle bo angen.		Cyfarfod â swyddogion perthnasol	Rheoli Datblygu a Chydymffurfio Cynllunio	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Ymchwilio camau gorfodi lle bo angen			
		Cysylltu â pherchnogion adeiladau			
		Gweithredu camau gorfodi (yn amodol ar drothwy)			
Mynd i'r afael ag eiddo diolwg yn Stryd Fawr Diserth, i gynnwys gwaith i wella ymddangosiad a chaffaeliadau posibl eiddo problemus.	5.1a	Cyfarfod â swyddogion perthnasol	Rheoli Datblygu a Chydymffurfio Cynllunio	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2016
		Ymchwilio camau gorfodi lle bo angen			
		Cysylltu â pherchnogion adeiladau			
		Achos Busnes			
		Nodi a sicrhau arian			
Rhoi sylw i adeiladau diolwg (yn amodol ar achos busnes)					
Edrych ar y potensial i sicrhau bod Stryd Fawr Diserth yn cael ei hysgubo ac nad oes chwyn arni. Sicrhau bod gwrychoedd ar Ffordd Llanelwy, Diserth yn cael eu tocio'n rheolaidd.		Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Achos Busnes			
		Nodi a sicrhau arian			
		Cynnal a chadw'r Stryd Fawr yn rheolaidd (yn amodol ar achos busnes)			
Edrych ar y potensial i sicrhau bod y draeniau, gylïau, ffosydd a chylfatiau yn cael eu glanhau yn rheolaidd ym mhob cymuned wledig.		Cwrdd ag aelodau lleol	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Achos Busnes			
		Nodi a sicrhau arian			
		Draeniau, gylïau, ffosydd a chylfatiau yn cael eu glanhau yn rheolaidd (yn amodol ar achos busnes)			

Edrych ar arian i helpu i gynnal gweithgareddau'r fforddolwr ym mhentref Cwm.	Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
	Achos Busnes			
	Nodi a sicrhau arian			
	Sicrhau arian i gynnal gweithgareddau'r fforddolwr (yn amodol ar achos busnes)			
Edrych ar y potensial i osod biniau'r cyngor yn lle'r biniau baw cŵn coch ar droedffordd Diserth / Prestatyn.	Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
	Achos Busnes			
	Nodi a sicrhau arian			
	Gosod biniau'r cyngor yn lle'r biniau baw cŵn (yn amodol ar achos busnes)			
Edrych ar y potensial o osod arwydd mwy ac amlycach yn lle'r arwydd sy'n rhybuddio nad yw'r ffordd drwy Ddiserth yn addas ar gyfer cerbydau trymion.	Cyfarfod gyda swyddogion perthnasol	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
	Adroddiad arbenigol			
	Achos Busnes			
	Nodi a sicrhau arian			
	Arwydd rhybudd yn ei le (yn amodol ar achos busnes)			
Ymchwilio i'r posibilrwydd o newid yr arwydd ar yr A55 yng Nghaerwys sy'n cyfeirio pobl i fynd drwy Ddiserth i Brestatyn.	Cyfarfod gyda swyddogion perthnasol	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
	Adroddiad arbenigol			
	Achos Busnes			
	Nodi a sicrhau arian			
	Arwydd cyfeiriad yn ei le (yn amodol ar achos busnes)			
Edrych ar y potensial i ailosod yr arwyneb atal-sgidio ar Allt y Rhaeadr, Diserth gan ei fod wedi treulio.	Cyfarfod gyda swyddogion perthnasol	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2016
	Adroddiad arbenigol			
	Achos Busnes			
	Nodi a sicrhau arian			
	Arwyneb atal-sgidio ar waith (yn amodol ar achos busnes)			

## Blaenoriaethau'r Cynllun Ardal

1. Mynd i'r afael ag eiddo diolwg yn Stryd Fawr Diserth - £38,000
2. Disodli'r offer chwarae yn Niserth - amcangyfrif o'r gost £12,000

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ar y trywydd iawn?

Fe gynhelir adolygiadau blynyddol gan y Cyngor Sir ynghyd â'r Cyngor Tref Cymuned. Fe ddarperir diweddariadau'n fwy rheolaidd hefyd i Grwpiau Ardal yr Aelodau y Cyngor Sir a'r Cyngor Tref, a hefyd y gymuned ehangach drwy Lais y Sir a thrwy ddatganiadau i'r wasg gan Gyngor Sir Ddinbych. Bydd y Cynllun yn cael ei drin fel dogfen fyw lle gellir ychwanegu neu ddileu dyheadau'n ôl y newidiadau mewn amgylchiadau.

## Pwy oedd yn gysylltiedig â chynhyrchu'r cynllun hwn?

Fe gynhyrchwyd y cynllun hwn gan Gyngor Sir Ddinbych yn dilyn ymgynghoriadau â Chynghorwyr a Gwasanaethau'r Cyngor Sir, aelodau Wardiau, Cynghorau Cymuned, busnesau, ysgolion uwchradd a'r gymuned ehangach.

**I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:**  
[datblygiad.economaidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:datblygiad.economaidd@sirddinbych.gov.uk)

## Atodiad Ystadegol

Data cyfrifiad 2011

Canran y ...	Yn Rhuddlan	yn Sir Ddinbych	Yn yr Ardal wledig gerllaw
Pobl ifanc 15 oed neu iau	15.7	18.1	17.9
Pawb dros 65 oed neu hŷn	25.7	21.1	18.9
Pawb dros 85 oed neu hŷn	2.9	2.8	2.1
Pobl sy'n hawlio budd-dal tai neu fudd-dal Treth y Cyngor	8.6	9.6	5.4
Cartrefi gorllawn	2.5	3.0	1.1
Pobl a aned yng Nghymru	63.8	58.1	60.1
Pobl dros 3 oed sy'n gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg	15.4	18.6	17.1
Trigolion sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus	36.9	35.7	35.0
Trigolion sy'n gweithio mewn gweithgynhyrchu	8.5	9.1	9.6
Trigolion sy'n gweithio ym myd manwerthu	14.4	14.4	13.0

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol  
Ardal Wledig a gaiff ei chynnwys: Cwm a Diserth*

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is	Sgôr yn 2005	Sgôr yn 2008	Sgôr yn 2011
Rhuddlan 1	1235	1387	1427
Rhuddlan 2	1172	1111	1074
Rhuddlan 3	973	818	1096